# Cynllun Hawliau Pobl Anabl, Cymru

## 2025-2035

## Ymgynghoriad i blant a phobl ifanc

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Nodyn i ymarferwyr, rhieni a gofalwyr:** Mae yna rai themâu yn y cynllun hwn y gallai plant eu gweld yn heriol. Efallai y bydd angen i chi ystyried yn ofalus sut rydych chi'n cyfleu rhai o'r pynciau, yn enwedig gyda phlant iau.



## Helo

Mae Cymru yn lle gwych i fyw, yn llawn llawer o wahanol bobl, o wahanol gefndiroedd gyda phethau gwahanol i'w cynnig.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bawb sy'n byw yma gael eu gwerthfawrogi, eu derbyn a'u parchu.

Mae pobl anabl yn aelodau cyfartal o gymdeithas a dylent ffynnu yma.

Mae llawer o bobl anabl yn dal i wynebu rhwystrau a gwahaniaethu. Mae'r cynllun hwn yn anelu at roi stop ar hynny.

# Dyma ein Cynllun Hawliau Pobl Anabl Cymru (2025-2035)

Dyma'n cynllun 10 mlynedd i wneud bywyd yn haws i blant ac oedolion anabl drwy gael gwared ar rwystrau a grëir gan gymdeithas. Gall y rhwystrau hyn wneud bywyd yn anoddach i bobl wrth ddysgu, symud o gwmpas, profi anawsterau synhwyraidd, teimlo'n bryderus neu'n drist, meddwl yn wahanol, neu i bobl sydd â phroblemau iechyd sy'n mynd ac yn dod, yn gwaethygu dros amser, neu'n para'n hir.

Mae'r cynllun hwn hefyd yn helpu pobl sy'n gofalu am eraill - fel rhieni, gwarcheidwaid neu ofalwyr.

Mae gennym ni **ganlyniadau tymor hir** clir rydyn ni eisiau eu cyflawni.

Mae gennym ni hefyd **gamau gweithredu tymor byr** yr ydym ni'n eu cymryd nawr i gyrraedd y canlyniadau hynny. Byddwn ni'n parhau i ychwanegu camau gweithredu newydd dros y 10 mlynedd nesaf.

i **Gwahaniaethu** — cael eich trin yn wahanol oherwydd pwy ydych chi.
**Rhwystrau** — pethau sy'n atal pobl anabl i fyw fel pobl eraill.






## Ynglŷn â'r cynllun hwn

Rydym ni am gael gwared ar y rhwystrau mae pobl anabl yn eu hwynebu mewn sawl maes o'u bywyd fel:




## Hawliau

Roedd y cynllun wedi'i adeiladu o amgylch hawliau pobl anabl.

Mae gan bob person anabl hawliau sydd wedi'u nodi yng **Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRDP)**. Yn y cynllun rydym ni'n defnyddio'r enw - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl, i adlewyrchu'r Model Cymdeithasol o Anabledd.

Mae gan blant a phobl ifanc anabl hawliau ychwanegol yng **Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).**

**System gyfiawnder** — yn cynnwys yr heddlu, llysoedd, carchardai a gwasanaethau prawf.

**Cynrychiolaeth** — rhywun sy'n sefyll i fyny dros grŵp o bobl ac yn siarad ar eu rhan.









# Ein huchelgais

**Mae Cymru yn lle:**

sy'n parchu ac yn hyrwyddo hawliau pobl anabl, lle mae pobl anabl

ble mae pobl anabl yn teimlo eu bod wedi eu croesawu, eu cynnwys, ac yn gallu cymryd rhan mewn bywyd cymunedol

sy'n hygyrch, fel y gall pobl anabl fwynhau popeth sydd gan Gymru i'w gynnig yn llawn

lle mae gan bobl anabl yr adnoddau a'r cyfleoedd i arfer eu hawliau a chael dweud eu dweud mewn penderfyniadau

lle nad yw pobl anabl, rhieni a gofalwyr yn wynebu rhwystrau annheg

lle gall pawb fynd ar-lein a defnyddio offer digidol os ydyn nhw eisiau

sy'n dathlu'r nifer o ffyrdd y mae pobl anabl yn cyfrannu at ein cymunedau

**i Hygyrch** — hawdd ei ddefnyddio neu'n hawdd ei ddeall.



# Themâu

Mae gan y cynllun 4 prif faes.

## 1 Cymdogaethau, lleoedd, a thrafnidiaeth:

- **Teithio**
- **Tai fforddiadwy a hygyrch**
- **Helpu pobl i ddeall y Model Cymdeithasol o Anabledd**

## 2 Cyflogaeth, incwm (arian) ac addysg:

- **Cyflogaeth, incwm ac addysg:**
- **Addysg plant a phobl ifanc**

## 3 Byw'n annibynnol, iechyd, a gofal cymdeithasol:

- **Llesiant**
- **Iechyd, gofal a chefnogaeth**

## 4 Cyfiawnder ac amgylcheddau cefnogol:

- **Mynediad at gyfiawnder**
- **Amgylcheddau hygyrch a chefnogol**

**i Cyfiawnder** — pawb yn cael eu trin mewn ffordd deg

**Amgylcheddau cefnogol** — lleoedd iach sy'n helpu pobl yn emosiynol, yn gorfforol ac yn gymdeithasol.

**Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd** — yn canolbwyntio ar y rhwystrau mae pobl anabl yn eu hwynebu, nid eu nam. Mae'n symud y cyfrifoldeb am gael gwared ar rwystrau i bob un ohonom ni yn y gymdeithas, nid dim ond pobl anabl.

# Cymdogaethau, lleoedd, a thrafnidiaeth

## Canlyniadau yr ydym ni am eu gweld ar gyfer teithio:

1 Mae gan bobl anabl wasanaethau trafnidiaeth hygyrch lle maen nhw'n byw sy'n gysylltiedig ac yn hawdd i'w defnyddio.

2 Mae staff ar bob lefel yn cael hyfforddiant ac yn gwybod sut i gefnogi pobl anabl.

3 Mae rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn cynnwys pobl anabl wrth llunio polisïau a chynllunio trafnidiaeth.

4 Mae gwybodaeth am deithio yn hawdd ei deall ac ar gael mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

5 Mae arweinyddiaeth a systemau'n gweithio'n dda, yn gwrando ar bobl anabl ac yn cefnogi eu hanghenion.

6 Mae cynlluniau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon yn meddwl am anghenion pobl anabl o'r cychwyn cyntaf.

7 Mae gwefannau, apiau, ac offer teithio eraill yn hawdd i'w defnyddio i bawb.

**(Erthygl 9 UNCRDP)** Rhaid i wledydd sicrhau bod gan bobl anabl fynediad at drafnidiaeth a gwybodaeth.

**(Erthygl 20 UNCRDP)** Mae angen i wledydd wneud yn siŵr bod gan bobl anabl wahanol fathau o drafnidiaeth, offer, technoleg a chymorth.

## Camau Gweithredu ➡ Byddwn yn:

- sicrhau bod awdurdodau lleol a gwasanaethau trafnidiaeth yn gwybod ble mae mannau parcio anabl a'u dangos ar eu gwefannau
- gwella'r ffordd maen nhw'n cynnwys pobl anabl wrth gynllunio gwasanaethau trafnidiaeth
- sicrhau bod sefydliadau trafnidiaeth yn gwrando ar blant a phobl ifanc anabl
- datblygu hyfforddiant i holl staff y gwasanaethau trafnidiaeth
- sicrhau bod gwefannau, apiau a thechnoleg gynorthwyol ar gael ac yn hawdd i'w defnyddio, fel y gall pobl anabl gynllunio a mynd ar deithiau
- gwirio bod polisïau trafnidiaeth a chyllid yn cefnogi anghenion pobl anabl – yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.







## Canlyniadau yr ydym ni am eu gweld ar gyfer tai:

1 Mae pobl anabl yn gwybod beth yw eu hawliau ac mae ganddynt y wybodaeth gywir am dai.

2 Tai fforddiadwy hygyrch, ar gael sy'n diwallu anghenion pobl anabl.

3 Gwasanaethau tai hygyrch sy'n hawdd eu defnyddio, wedi'u cysylltu ac sy'n lleihau rhwystrau.

4 Mae pobl anabl yn cael eu clywed a'u cynnwys mewn cynlluniau a pholisïau tai.

5 Mae arweinyddiaeth a systemau'n gweithio'n dda, yn gwrando ar bobl anabl ac yn cefnogi eu hanghenion tai.

6 Mae staff ar bob lefel yn cefnogi pobl anabl ac yn deall y Model Cymdeithasol o Anabledd.

**(Erthygl 28 UNCRDP)** Mae gan bobl anabl hawl i safon byw dda ac i fod yn ddiogel.

## Camau Gweithredu ➡ Byddwn yn:

- gweithio gydag awdurdodau lleol a gwasanaethau tai eraill i gynyddu lefel tai hygyrch
- adolygu ein Gofynion Ansawdd 2021 ar gyfer tai
- sicrhau bod awdurdodau lleol yn cefnogi pobl anabl i wneud eu cartrefi yn fwy hygyrch a rhoi'r offer cywir iddynt
- gweithio gyda sefydliadau tai i wella gwybodaeth i bobl anabl, gan gynnwys pobl sy'n cael trafferth defnyddio gwasanaethau ar-lein
- darparu hyfforddiant i sefydliadau tai
- gweithio gyda sefydliadau pobl anabl i ddylunio a chynllunio gwasanaethau
- gwrando ar bobl anabl o gymunedau Sipsiwn, Roma, Teithwyr i ddeall y rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu.



## Canlyniadau yr ydym ni am eu gweld ar gyfer y Model Cymdeithasol o Anabledd:

**1** Mae gan bobl anabl eu hawliau a gallant fwynhau'r holl leoedd cyhoeddus a gwasanaethau. Maen nhw'n cymryd rhan mewn cynllunio a dylunio eu cymunedau.

**2** Gall pobl anabl gymryd rhan a chael eu cynnwys mewn bywyd cymunedol oherwydd bod popeth yn hygyrch.

**(Erthygl 9 UNCRDP)** Rhaid i wledydd sicrhau bod gan bobl anabl fynediad at drafnidiaeth a gwybodaeth.

**Camau Gweithredu** ➡ Byddwn yn:

- defnyddio'r Model Cymdeithasol o Anabledd pan fyddwn ni'n gwneud penderfyniadau am y gwasanaethau a'r cynhyrchion rydyn ni'n eu prynu
- sicrhau bod hyfforddiant Model Cymdeithasol o Anabledd ar gael i bawb sy'n gweithio i wasanaethau cymorth
- adolygu ein gwaith i sicrhau nad ydym ni'n creu rhwystrau i bobl anabl.
- cyhoeddi cyngor a chanllawiau i helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i feddwl am sut mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar wahanol grwpiau, gan gynnwys pobl anabl
- gweithio gyda gweithwyr proffesiynol a grwpiau i benderfynu ar unrhyw gamau newydd mae angen i ni eu hychwanegu at y cynllun hwn.






Siarad am...

# Cyflogaeth, incwm (arian) ac addysg

## Canlyniadau yr ydym ni am eu gweld ar gyfer cyflogaeth ac incwm:

**1** Mae pobl anabl yn cael cyngor i'w helpu i gael swydd, gwirfoddoli neu ddechrau busnes.

**2** Mae pobl anabl yn cymryd rhan mewn systemau cynllunio sy'n dileu rhwystrau ac yn gwneud gwaith yn fwy hygyrch.

**3** Mae cyflogwyr yn gwybod eu cyfrifoldebau i wneud yn siŵr bod pobl anabl yn mwynhau eu hawliau ac yn rhan o bob lefel o weithlu Cymru.

**4** Mae pobl anabl yn deall eu hawliau, gallant ddatblygu eu sgiliau a chael cyfleoedd i ddysgu gydol oes. Nid oes unrhyw rwystrau i addysg, hyfforddiant, na chymorth recriwtio.

**5** Mae rhwystrau i incwm i bobl anabl yn cael eu dileu. Mae Llywodraeth y DU yn gwrando arnyn nhw ac yn cymryd eu barn ar y system fudd-daliadau o ddifrif.

**6** Mae effaith Anghydraddoldeb Economaidd-Gymdeithasol ar fywydau pobl anabl yn cael ei leihau.

**7** Mae pobl anabl yn cymryd rhan mewn dysgu gydol oes ac nid ydynt yn colli allan oherwydd rhwystrau fel tlodi neu anghenion iaith.

✅ **(Erthygl 24 UNCRDP)** Mae gan bobl anabl hawl i addysg.

✅ **(Erthygl 27 UNCRDP)** Rhaid i wledydd roi stop ar wahaniaethu a sicrhau bod pobl anabl yn cael cyfleoedd i weithio.

### Camau Gweithredu ➡ Byddwn yn:

- sicrhau bod ein Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl yn rhoi gwybodaeth, arweiniad a chyngor i gyflogwyr
- codi ymwybyddiaeth o hawliau cyflogaeth pobl anabl a'r manteision o'u cyflogi
- sefydlu Fforwm Arweinwyr Hyderus newydd. Byddant yn rhoi cefnogaeth i gyflogwyr, yn eu helpu i ddysgu oddi wrth eu gilydd a'r llall, ac yn fwy hyderus ynghylch cyflogi pobl anabl
- gwirio gwasanaethau cymorth ar gyfer oedolion anabl sydd eisiau mynd yn ôl i addysg neu hyfforddiant
- gwella gwasanaethau cymorth i bobl anabl sy'n hunangyflogedig neu'n berchen ar fusnes
- diweddaru'r cynllun Prentisiaethau Cynhwysol.

**i** **Economaidd-gymdeithasol** — faint o arian sydd gan rywun, ble maen nhw'n byw, eu haddysg, a sut mae'r pethau hyn yn effeithio ar eu cyfleoedd a'u profiadau bywyd.







## Canlyniadau yr ydym ni am eu gweld ar gyfer addysg plant a phobl ifanc:

1 Mae dysgwyr anabl yn mwynhau eu hawl i addysg ac maen nhw'n derbyn y gefnogaeth maen nhw ei hangen i ddysgu.

2 Mae dysgwyr anabl yn cael eu clywed a'u cynnwys wrth ddatblygu polisïau a chynlluniau addysg.

3 Mae pob ysgol, coleg a darparwr addysg eraill yn deall hawliau a'r Model Cymdeithasol o Anabledd.

4 Mae dysgwyr anabl yn derbyn addysg gynhwysol a hygyrch. Meddu ar systemau da o reolau, arolygu a gorfodi, ynghyd â ffyrdd o wrando ar brofiadau dysgwyr anabl.

5 Mae pob ysgol, coleg a lleoliad arall yn hygyrch ac yn hawdd i'w defnyddio fel y gall dysgwyr anabl fod gyda'u cyfoedion yn eu cymuned leol.

6 Mae dysgwyr anabl yn cael mynediad cyfartal i goleg, prifysgol, neu ddysgu arall ar ôl ysgol.

### Camau Gweithredu ➡ Byddwn yn:

- gwirio hyfforddiant galwedigaethol, prentisiaethau, a llwybrau eraill i gyflogaeth
- creu rheolau ariannu a chofrestru newydd ar gyfer colegau a phrifysgolion sy'n helpu i wneud pethau'n decach i ddysgwyr anabl
- sylwi ar fylchau yn y gweithlu
- diweddaru ein canllawiau a'n codau ymarfer fel bod plant a phobl ifanc anabl yn cael y cymorth maen nhw ei angen ar gyfer eu gofal iechyd, presenoldeb a mwy.
- gweithio gyda Dysgu i ddatblygu hyfforddiant i wella sgiliau ar gefnogi plant a phobl ifanc anabl
- diweddaru ein Canllawiau Gwrth-fwlio a Diogelu
- gweithio gydag asiantaethau tocynnau a threfnwyr digwyddiadau fel bod costau teg a gostyngiadau i blant ac oedolion anabl.

**i Cynhwysol** — yn agored ac yn groesawgar i bawb ac nid yw'n gadael unrhyw un allan.

**Gorfodi** — sicrhau bod pobl yn dilyn y gyfraith neu'r rheolau

**Hyfforddiant galwedigaethol** — ennill sgiliau ar gyfer gwaith.

**Teg** – bod yn deg drwy ddiwallu anghenion gwahanol pobl, fel bod gan bawb gyfle teg.

✓ **(Erthygl 7 UNCRDP)** Rhaid i wledydd sicrhau bod pob plentyn anabl yn gallu mwynhau eu hawliau dynol a'u rhyddidau fel mae plant eraill yn ei wneud.

✓ **(Erthygl 24 UNCRDP)** Mae gan bobl anabl hawl i addysg.







# Byw'n annibynnol, iechyd a gofal cymdeithasol

## Canlyniadau yr ydym ni am eu gweld ar gyfer lles:

1 Mae pobl anabl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn llawer o wahanol brofiadau lles - y celfyddydau, chwaraeon, treftadaeth a diwylliant.

2 Gall pobl anabl fwynhau gweithgareddau chwarae, adloniant a hamdden yn gyfochr a'u cyfoedion.

3 Gall pobl anabl ddefnyddio gwasanaethau lleol a mynegi eu hunain yn yr iaith maen nhw'n ei dewis gan gynnwys BSL a Chymraeg.

- **(Erthygl 19 UNCRDP)** Hawl pobl anabl i fyw'n annibynnol ac i gymryd rhan ym mywyd y gymuned.
- **(Erthygl 30 UNCRDP)** Mae gan bobl anabl hawl i gymryd rhan ym mywyd diwylliannol, hamdden, adloniant, a chwaraeon ar sail gyfartal ag eraill.
- **(Erthygl 15 UNCRC)** Mae gan blant hawl i gyfarfod ac ymuno â grwpiau.
- **(Erthygl 31 UNCRC)** Mae gan blant hawl i chwarae.

## Camau Gweithredu ➡ Byddwn yn:

- ychwanegu'r Model Cymdeithasol o Anabledd at wybodaeth ar gyfer ceisiadau grant
- gweithio gyda sefydliadau diwylliannol, treftadaeth, y celfyddydau, chwaraeon a hamdden i gael mwy o gyfleoedd i bobl anabl
- creu mwy o gyfleoedd i bobl anabl gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol — a'u siapio mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu eu hunaniaethau a'u syniadau eu hunain
- sicrhau bod y sector diwylliant yn decach drwy ei gwneud yn haws i bobl anabl trwy ddelio â rhwystrau, eu helpu i gymryd rhan a gweithio yno
- gwirio bod y Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yn cefnogi gwasanaethau gofal plant a chwarae hygyrch
- sicrhau bod hyfforddiant ar gefnogi plant anabl ar gyfer gweithwyr gofal plant a chwarae
- sefydlu bwrdd ymgynghori o bobl sy'n gallu rhoi cyngor a chefnogi'r cynllun hwn.



## Canlyniadau yr ydym ni am eu gweld ar gyfer **iechyd, gofal a chymorth:**

**1** Mae pobl anabl yn cael gofal a chefnogaeth ar yr adeg iawn heb unrhyw fylchau, gan gynnwys wrth iddynt symud o wasanaethau plant i oedolion.

**2** Mae pob lleoliad gofal yn hygyrch, yn cynnwys cyfarpar priodol ac yn diwallu anghenion pobl anabl.

**3** Mae gofal a chefnogaeth bob amser yn rhoi pobl anabl yn gyntaf ac yn hyrwyddo eu hawliau. Mae pobl anabl yn rhan o brosesau llunio polisi fel bod llai o rwystrau.

**4** Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u paratoi'n dda ac yn rhoi'r gefnogaeth gywir, ar yr adeg gywir. Mae staff yn deall hawliau a'r Model Cymdeithasol o Anabledd.

**5** Mae pobl anabl yn cael eu cynnwys yn y gwaith o redeg gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae ffocws ar roi terfyn ar wahaniaethu a gwella safonau gwasanaeth fel bod popeth yn decach.

**6** Mae pobl anabl yn deall eu hawliau ac yn cael cymorth i gyfathrebu'n glir â gwasanaethau gofal. Mae hyn yn cynnwys BSL a'r Gymraeg.

**7** Mae gofalwyr di-dâl pobl anabl yn cael eu cydnabod a'u trin fel pobl bwysig wrth gynllunio cymorth.

**8** Mae gofalwyr di-dâl yn cael y wybodaeth gywir ac yn gwybod pa gymorth y gallant ei gael.

**9** Mae pobl anabl yn ymwneud â llunio polisïau iechyd sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd.

**10** Mae pobl anabl yn helpu i lunio cynllun ar gyfer argyfyngau iechyd cyhoeddus, fel bod ymatebion yn deg ac yn diwallu eu hanghenion.

✓ **(Erthygl 19 UNCRDP)** Hawl pobl anabl i fyw'n annibynnol ac i gymryd rhan ym mywyd y gymuned.

✓ **(Erthygl 25 UNCRDP)** Mae gan bobl anabl hawliau cyfartal i'r safon uchaf o iechyd heb wahaniaethu.



## Canlyniadau yr ydym ni am eu gweld ar gyfer iechyd, gofal a chymorth:

**Camau Gweithredu** ➡ Byddwn yn:

- gweithio gyda sefydliadau i gynllunio cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol pobl anabl
- gwrando ar bobl anabl ynghylch sut y dylem ni hyrwyddo eu hawliau
- defnyddio gwybodaeth o ymchwil ac astudiaethau i wneud penderfyniadau
- gweithio gyda chyflogwyr iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu hyfforddiant am hawliau a'r Model Cymdeithasol o Anabledd
- gosod amcanion yn y dyfodol ar gyfer gwella iechyd, gofal a chymorth
- gweithio gyda datblygwyr technoleg i sicrhau bod technoleg gynorthwyol yn gweithio yn Gymraeg a Saesneg
- cadw termau Cymraeg yn gyfredol fel eu bod yn adlewyrchu'r Model Cymdeithasol o Anabledd
- gweithio gyda phobl anabl i lunio sut rydym ni'n cynllunio ac yn ymateb i argyfyngau iechyd cyhoeddus, gan sicrhau bod eu profiadau a'u barn yn cael eu cynnwys
- sicrhau bod pobl anabl yn gallu byw'n annibynnol cyhyd â phosibl
- datblygu polisi ar gyfer gwell cymorth BSL
- gwneud y Model Cymdeithasol o Anabledd yn rhan o ganllawiau ar gyfer timau arolygu
- sefydlu grŵp i wirio sut mae mesurau ac adnoddau cyllid y GIG yn cael eu defnyddio a sut mae penderfyniadau yn effeithio ar bobl anabl.

**Camau Gweithredu** ➡ Ar gyfer **gofalwyr di-dâl** byddwn ni'n:

- parhau i hyrwyddo gwaith gofalwyr di-dâl a sicrhau bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn rhoi'r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt
- parhau i gefnogi awdurdodau lleol i wella asesiadau anghenion fel bod gofalwyr di-dâl yn cael help
- parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i edrych ar p'un a yw gofalwyr di-dâl yn cael digon o seibiannau o'u rôl gofalu.
- sicrhau bod anghenion gofalwyr di-dâl yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau a chanllawiau ysbytai.







# Cyfiawnder ac amgylcheddau cefnogol

## Canlyniadau yr ydym ni am eu gweld ar gyfer cyfiawnder:

**1** Mae pobl anabl yn cael eu clywed gan y Llywodraeth, mae ganddynt hawliau ac maent yn gallu llunio systemau cyfreithiol a chyfiawnder. Maen nhw'n cael eu trin yn deg ar bob cam - o riportio trosedd i gael cymorth wedyn.

**2** Mae pobl anabl yn deall eu hawliau ac yn derbyn gwell cefnogaeth gan y systemau Cyfiawnder Sifil a Throseddol. Mae hyn yn cynnwys cyngor cyfreithiol lleol a ffyrdd iddynt gwyno os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.

**3** Mae pobl anabl sy'n profi trais, cam-drin rhywiol a thrais domestig yn cael yr holl gefnogaeth sydd ei angen arnynt.

**4** Mae hawliau pobl anabl a'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn rhan o bolisïau, cynlluniau a chyfreithiau.

**5** Mae'r systemau cyfreithiol a chyfiawnder yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth i wella eu gwaith a'r gefnogaeth maen nhw'n ei roi i bobl anabl.

**i** **Systemau Cyfiawnder Sifil** — yn canolbwyntio ar ddelio gyda materion nad ydynt yn droseddol fel materion teuluol neu faterion contract gwaith.

**Systemau Cyfiawnder Troseddol** — system gyfreithiol sy'n cynnwys yr heddlu, llysoedd a gall pobl fynd i'r carchar.

## Camau Gweithredu ➡ Byddwn yn:

- parhau i ariannu Mae Casineb yn Brifo Cymru
- edrych ar adroddiad y Pwyllgor Rhyngwladol ar Hawliau Pobl Anabl (2024) i weld pa gamau mae angen i ni eu cymryd
- sicrhau bod goroeswyr a dioddefwyr anabl yn cael cymorth o ansawdd uchel
- sicrhau bod pobl anabl yn deall beth yw 'trosedd casineb' a 'trosedd gyfaill', sut i'w riportio, a sut i gael cefnogaeth
- cael gwell gwybodaeth am garcharorion anabl Cymru gan Lywodraeth y DU i sicrhau eu bod yn cael cymorth
- sicrhau bod staff mewn carchardai yn cael yr hyfforddiant cywir ar Fodel Cymdeithasol o Anabledd a hawliau
- sicrhau bod hawliau anabl yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau y mae Llywodraeth y DU yn eu gwneud ar faterion cyfiawnder
- sicrhau bod carcharorion yn cael yr asesiadau addysg cywir fel eu bod yn derbyn cymorth
- datblygu Strategaeth Genedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru sy'n rhoi anghenion plant anabl yn gyntaf.

✅ **(Erthygl 5 UNCRDP)** Mae pawb yn gyfartal gerbron y gyfraith ac â hawl gyfartal i gael eu hamddiffyn, heb wahaniaethu.







## Canlyniadau yr ydym ni am eu gweld ar gyfer **amgylcheddau cefnogol:**

**1** Cymdeithas heb wahaniaethu lle nad yw pobl anabl yn cael eu bwlio neu'n wynebu agweddau negyddol. Mae ganddynt eu hawliau a gallant fwynhau pob maes o fywyd.

**2** Mae Sefydliadau Pobl Anabl ledled Cymru yn hyrwyddo hawliau ac mae ganddynt gyllid ac adnoddau i gefnogi pobl anabl. Mae eu harbenigedd yn cael ei barchu, ac maen nhw'n rhan o brosesau datblygu cynlluniau a pholisïau.

**3** Mae gan wasanaethau ledled Cymru yr adnoddau i gefnogi pobl anabl yn y ffyrdd cywir. Maen nhw'n hygyrch ac yn deall y Model Cymdeithasol o Anabledd.

**4** Gall pobl anabl gymryd rhan mewn prosesau gwleidyddol a bywyd cyhoeddus.

**5** Mae pobl anabl yn cael eu cynrychioli gan lywodraeth sy'n eu gwerthfawrogi, eu deall a'u parchu. Mae eu hawliau wedi'u cynnwys mewn cynlluniau, polisïau a chyfreithiau.

**6** Gall pobl anabl fynd ar-lein, defnyddio offer digidol, dysgu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt a dewis sut maen nhw'n defnyddio technoleg.

✓ **(Erthygl 8 UNCRDP)** Rhaid i wledydd sicrhau bod pobl anabl yn cael eu trin gyda pharch ac yn mynd i'r afael ag agweddau negyddol yn y gymdeithas.

✓ **(Erthygl 9 UNCRDP)** Rhaid i wledydd sicrhau bod gan bobl anabl fynediad at drafnidiaeth a gwybodaeth.

**Camau Gweithredu ➡** Byddwn yn:

- addysgu timau'r wasg, gwasanaethau cyfreithiol a staff ar y Model Cymdeithasol o Anabledd
- addysgu Ysgrifenyddion y Cabinet, Gweinidogion, a'u staff ar y Model Cymdeithasol o Anabledd
- datblygu ymgyrch sy'n hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl a'u hawliau
- annog sefydliadau a chyflogwyr i benodi Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl a rhannu arfer da
- helpu mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg ar-lein drwy ddod o hyd i fylchau mewn cymorth a rhoi'r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar gwmnïau i wella gwasanaethau
- creu ac adolygu grant cynhwysiant digidol cenedlaethol i helpu pobl i gael yr offer a'r sgiliau digidol sylfaenol maen nhw eu hangen, mewn ffordd sy'n gweithio i'w bywydau a'u cymunedau.







## Gwirio ei fod yn gweithio

Rydym ni am sicrhau bod y cynllun hwn yn gwneud gwahaniaeth felly bydd y tîm Cynhwysiant Pobl Anabl yn gweithio gydag Uned Tystiolaeth Anghydraddoldeb Anabledd Llywodraeth Cymru i gasglu tystiolaeth ein bod yn cyrraedd ein huchelgeisiau a'n canlyniadau.

Byddwn yn cynnwys y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl a'r Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl.

Byddwn yn sefydlu Bwrdd Ymgynghori Allanol o weithwyr proffesiynol a fydd yn:

- rhoi cyngor a chefnogaeth i ni
- siarad â phlant ac oedolion anabl a sicrhau'n bod yn gwrando ar eu barn
- casglu tystiolaeth o wahanol leoliadau cyflogaeth, addysg a gofal iechyd
- hyrwyddo arferion gorau fel bod gwasanaethau yn dysgu oddi wrth eu gilydd
- gwirio bod pobl anabl yn cael cyfleoedd ac adnoddau.

## Camau nesaf

Yn 2027 byddwn yn gwirio sut mae'r Cynllun yn gweithio. Byddwn yn casglu data am yr hyn sy'n mynd yn dda, beth sy'n rhwystro cynnydd, a sut y gallwn ni wella pethau.

Byddwn ni'n gwneud y canlynol:

- dilyn y Model Cymdeithasol o Anabledd
- edrych ar ddata a thystiolaeth, fel faint o bobl anabl a helpodd i lunio polisïau, neu faint o staff a gwblhaodd hyfforddiant ar y Model Cymdeithasol o Anabledd
- gwrando ar brofiadau gwirioneddol pobl a sut mae'r Cynllun yn gwneud gwahaniaeth.

Yna byddwn yn gwirio p'un a yw'r Cynllun yn gweithio yn y tymor hir - neu os oes angen newid unrhyw beth.










## Diolch am ddarllen

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

TimCynhwysiantPoblAnabl@llyw.cymru

Tîm Cynhwysiant Pobl Anabl
Adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

